

## ASTUDIAETH ACHOS

# MYTHAU A CHWEDLAU

Defnyddiodd y ddau ddosbarth Blwyddyn 6 yn yr ysgol y Gweithgaredd Allweddol 'Mythau a Chwedlau' ar Tirlun i ategu eu thema trawsgwricwlaidd, gan archwilio mythau o fewn ac o amgylch Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

I ddechrau, defnyddiodd y dysgwyr Dasg 1 y Gweithgaredd Allweddol i ysgogi gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y dysgwyr am beth yw mythau a chwedlau, gan ddatblygu rhai diffiniadau diddorol a arweiniodd at rywfaint o drafodaeth o ansawdd uchel.

Fe ddefnyddion nhw hyn fel sail i archwilio Castell Dinas Brân. Saif y castell 365 metr uwchben Llangollen ac mae adfeilion y castell yn destun cynllwyn a chwedlau rhyfedd. Cafodd y dysgwyr eu hudo gan chwedl am gawr o'r enw Gogmagog; yr honiad bod coed cnau Ffrengig hudolus yn tyfu'n gyflym yn ystod lleuadau llawn ac yna'n diflannu gyda'r wawr ac ysbryd cythreulig sy'n chwarae cerddoriaeth beraidd sy'n denu bodau dynol gerllaw lle o'r enw 'Nant yr Ellyllon'.

Roedd y ddau ddosbarth hefyd wedi ymweld â Chorwen i weld ffurf cwsg Drewyn y cawr. Yn 2019, cymerodd y gymuned leol ac ymwelwyr ran yn Deffro Cawr Corwen, sef cyfle i brofi mythau a chwedlau'r ardal a hanes Drewyn y cawr.

Gan adeiladu ar yr ymchwiliad hwn i fythau a chwedlau lleol, bu'r dysgwyr yn cydweithio ar Dasg 2, gan ddarganfod mwy am Gwyllgi, Guto Nyth Brân a'r Fari Lwyd. Buont yn gweithio mewn grwpiau bach i greu penillion a rapiau y gallent eu defnyddio i geisio cael mynediad i dŷ neu eu defnyddio i gadw draw y bobl sy'n ceisio cael mynediad i'w tŷ. Yna, cymerodd pob dosbarth eu tro i fynd allan i'r awyr agored i gymryd rhan mewn 'brwydr odli', gan ddefnyddio eu syniadau i gael mynediad i'r dosbarth arall neu i gadw'r dosbarth arall draw.

Dyma rap un grŵp (yn Saesneg) i gadw tresbaswyr draw:

*Hey, step back, this crib belongs to me and me and me*

*No entry here, no coming through this door.*

*Our locks are tight, security is key*

*You aren't coming in, no alien feet on this floor.*

*You can knock and bang, but you can't come through,*

*This is our space, it's not for you.*

*Respect the rules bro, don't make a fuss*

*Breaking in isn't an option, you better believe us!*



Un ffocws i'r thema hon oedd y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o fewn y cwricwlwm. Mae'r athro o'r farn bod y dasg 'brwydr odli' wedi rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu creadigol a dehongli llafar.

Yn dilyn hyn, cwblhaodd y dysgwyr Dasg 3, cyn symud ymlaen i Dasg 4, gan greu eu mythau a'u chwedlau eu hunain.